# Cynorthwyydd Marchnata

Cyflog: £27,807 - £30,162 y flwyddyn (Gradd 5)
Math o Gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

**Yr her**

CBAC yw prif gorff dyfarnu Cymru. Ymhlith yr hyn yr ydym yn ei gyfrannu at ein cymunedau addysg y mae darpariaeth cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

**Y rôl**

Fel Cynorthwyydd Marchnata, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata i ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso ymgyrchoedd marchnata aml-sianel ar draws brandiau CBAC ac Eduqas. Byddwch hefyd yn cefnogi'r tîm marchnata ehangach i gyflawni strategaeth farchnata a chyfathrebu CBAC/Eduqas ar draws amrediad o sianeli gan gynnwys y we, cyfryngau cymdeithasol, e-bost, digwyddiadau, a marchnata cynnwys, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau gweinyddol sylfaenol.

**Yr unigolyn**

Er mwyn llwyddo yn y rôl hon, bydd angen sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, sylw i fanylion, a'r gallu i flaenoriaethu gofynion cystadleuol. Byddwch yn unigolyn hunangymhellol, sydd hefyd yn barod i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad eang o ddulliau a thechnegau marchnata.
Bydd gennych hefyd brofiad o weithio ar y cyd fel rhan o dîm.

**Ein buddion**

Mae CBAC yn gorff croesawgar a chefnogol, sy'n falch o gynnig amrediad eang o fuddion hael i'w gyflogeion gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (ynghyd ag 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol), cyfleoedd i hyfforddi a datblygu gan gynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg am ddim, a chynllun pensiwn da.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 12:00, dydd Mercher 22 Mai 2024

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Cynorthwyydd Marchnata |
| **Adran:** | Marchnata a Chyfathrebu |
| **Isadran:** | Prif Weithredwr/Strategaeth |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata |
| **Gradd:** | 5 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd |

## Prif ddiben y swydd:

Byddwch yn cynorthwyo'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i drefnu, darparu a gwerthuso ymgyrchoedd marchnata aml-sianel i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau addysgol CBAC.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Marchnata e-bost**

- Gweithio gyda'r tîm ehangach i greu, datblygu a rheoli ymgyrchoedd marchnata e-bost gan ddefnyddio meddalwedd e-bost y corff, gan gynnwys ysgrifennu copi, dylunio a rheoli rhestrau dosbarthu.
- Drafftio a dylunio deunyddiau marchnata e-bost ar gyfer ymgyrchoedd hysbysebu trydydd parti.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata i ddatblygu teithiau marchnata e-bost awtomataidd.
- Gwerthuso ac adrodd yn ôl ar effeithiolrwydd ymgyrchoedd e-bost.

**Golygu Gwe**

- Gweithio gyda'r tîm ehangach i greu, cynnal a datblygu cynnwys gwe sy'n gysylltiedig ag ymgyrch ar gyfer gwefannau Eduqas a CBAC gan ddefnyddio System Rheoli Cynnwys y corff, gan gynnwys tudalennau glanio a ffurflenni ysgogi ac ennyn diddordeb.

**Dylunio Graffeg**

- Gweithio gyda thîm ehangach ar ddylunio deunyddiau marchnata sylfaenol ar gyfer y we ac argraffu gan ddefnyddio meddalwedd Canva ac Adobe Creative Cloud.
- Cysylltu ag asiantaethau allanol i drefnu dylunio, argraffu a dosbarthu deunydd marchnata fel taflenni post uniongyrchol, pamffledi, baneri a phosteri.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

- Cynorthwyo'r Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso ymgyrchoedd hysbysebu cyfryngau cymdeithasol.

**Marchnata Cynnwys**

- Cynorthwyo'r Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata i greu cynnwys deniadol a pherthnasol ar gyfer y we, wedi'i argraffu a'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys: postiadau blog; erthyglau; fideos; podlediadau.
- Caffael, golygu ac uwchlwytho cynnwys gan gydweithwyr a rhanddeiliaid.
- Helpu cydweithwyr tîm marchnata i greu cynnwys fideo ar gyfer y we a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cysylltu ag asiantaethau allanol i greu cynnwys fideo o ansawdd uchel ar gyfer ymgyrchoedd marchnata.

**Digwyddiadau**

- Helpu cydweithwyr yn y tîm marchnata i drefnu presenoldeb mewn digwyddiadau allanol fel cynadleddau.
- O bryd i'w gilydd cynrychioli'r corff mewn digwyddiadau drwy stondinau arddangos staffio a chasglu gwybodaeth gyswllt am gynnwys posibl.

**Arall**

- Cynorthwyo'r Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata mewn gweithgarwch ymchwil i'r farchnad, megis datblygu arolygon.
- Cysylltu â thîm Cyfieithu CBAC i drefnu cyfieithiad Cymraeg o ddeunydd marchnata lle bo hynny'n briodol.
- Cefnogi'r tîm i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu CBAC.
- Cefnogi'r tîm gyda dyletswyddau gweinyddol fel archebion prynu, diweddariadau gwe, a phost uniongyrchol.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn cyhyd â'u bod yn rhesymol ac yn briodol i lefel y swydd.

## Manyleb Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynorthwyydd Marchnata |
| **Adran:** | Marchnata a Chyfathrebu/Strategaeth |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Ysgrifennu copi a golygu
- Golygu gwe gan ddefnyddio System Rheoli Cynnwys
- Sgiliau sefydliadol, gan gynnwys y gallu i reoli llwyth gwaith eich hun
- Sgiliau cyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar
- Dylunio Graffeg Sylfaenol

**Dymunol**

- Sgiliau fideograffeg a golygu fideo sylfaenol
- Sgiliau ffotograffiaeth sylfaenol
- Profiad o ddefnyddio cleientiaid e-bost fel Campaign Monitor, Mailchimp neu debyg

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth am egwyddorion marchnata gan gynnwys: marchnata cynnwys; marchnata e-bost; marchnata digidol

**Dymunol**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector addysg yn y Deyrnas Unedig.

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd marchnata
- Profiad o gyflwyno ymgyrchoedd marchnata
- Profiad o gwblhau tasgau i amserlenni tynn a rheoli terfynau amser cystadleuol

**Dymunol**

- Profiad o weithio hybrid
- Profiad o weithio yn y sector addysg

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Gradd mewn marchnata neu bwnc perthnasol

**Dymunol**

- Aelod o'r Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM)

## Gofynion Eraill

**Hynod Ddymunol**

- Ymagwedd hyblyg at waith / patrymau gwaith sy'n newid
- Hunangymhelliant, y gallu i weithio'n effeithiol gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl
- Dibynadwy a phrydlon
- Gallu siarad Cymraeg

**Dymunol**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd tîm sy'n symud yn gyflym

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | Cynorthwyydd Marchnata/ Marketing Assistant | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £27,807 - £30,162 y flwyddyn/ per annum | **Gradd:**<br>**Gradd:** | 5 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply | | |

**Math o Gytundeb:** **Contract Type:**

☒ Llawn-amser / Full Time

☐ Rhan-amser / Part Time — **Nifer yr oriau yr wythnos / No. of hrs per week**

☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term — **Diwedd y Tymor / End of Term**

☐ Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term — **Diwedd y Tymor / End of Term**

**Nifer yr oriau yr wythnos / No. of hrs per week** 36.5

**Dull Ymgeisio:** **Method of Application:**

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **12:00, dydd Mercher 22 Mai 2024**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **12:00, Wednesday 22 May 2024**.